Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch 2023

Does dim dwywaith i Eisteddfod 2023 yn Llandudoch fod yn llwyddiannus, gyda gweithgareddau'r wythnos i gyd yn denu cystadleuwyr o safon uchel, a chynulleidfa deilwng i werthfawrogi eu cynnyrch a'u perfformiadau.

Fel arfer, bu Noson Wobrwyo cystadlaethau llenyddol a chelf y plant yn llawn bwrlwm. Diolch i'r Cartws, Llandudoch am y parodrwydd a'r croeso i gynnal y noson, ac i arddangos y gwaith am yr wythnos gyfan. Bu plant lleol, a rhai ar draws Cymru, yn ysgrifennu, darlunio, a thynnu lluniau gyda chamera i safon uchel, gyda'r beirniaid Bethan ac Elen Jones (Llên) a Meinir Mathias (Celf) yn canmol y cynnyrch yn fawr iawn. Braf oedd cael dod ynghyd i ddathlu llwyddiant y plant, a rhannu yn eu brwdfrydedd.

Bu tri thîm wrthi yn Nhalwrn y beirdd ar Nos Fercher, Mai 17eg yn Neuadd Ysgol Llandudoch – TAGAE, Pump-o-ni, a Beca. Wedi gornest glos tîm Pump-o-ni a ddaeth i'r brig o hanner marc, gyda'r ddau arall yn gydradd ail. Aelodau tîm Pump-o-ni oedd Geraint Volk, Mary Jones, Nerys Llewelyn Davies, Nia Llewelyn a Carol Byrne Jones. Bu'n noson o glywed darnau dwys a doniol a hefyd clywed beirniadaethau Llŷr Gwyn Lewis (Llên) ac Emyr Davies (Dysgwyr) ar gynnyrch llenyddol yr eisteddfod. Daeth y noson i ben gyda sgwrs a phaned, a thamaid i'w fwyta.

Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Mrs Eirlys Thomas, Caerfyrddin. Mae Eirlys yn enedigol o Landudoch ac yn ymweld â'r pentref yn aml – yn wir, mae'n wyneb cyfarwydd i nifer fawr o'r pentrefwyr presennol. Rhoddodd araith hynod ddiddorol, gan roi rhan ohoni ar ffurf penillion yn hel atgofion am dyfu lan yn Llandudoch pan oedd Cymraeg yn iaith chware, gweithio a byw yn y pentref. Fel hyn y gorffennodd ei phenillion:

Pob llwyddiant i`r dyfodol
a diolch am eich gwaith
yn cadw'n fyw 'y pethe'
a sefyll dros yr iaith.

Ymdrechwn a chydweithiwn
'Da'n gilydd – down ynghyd,
Ie, pentre glân Llandudoch
Yw`r gore yn y byd.

Yn ychwanegol at y beirniaid cystadlaethau plant a llenyddol, y beirniaid eraill oedd Bethan Dudley Fryar, Caine, Swydd Wiltshire a Catrin Hughes, Llanelli fu'n rhannu'r cyfrifoldebau cerdd, a Beryl Vaughan, Llanerfyl, a fu'n rhoi ei llinyn mesur dros ymdrechion y llefarwyr. Ein cyfeilydd oedd Angharad James o Gaerdydd (a Llantwd) ac arweiniwyd o'r llwyfan gan Elinor Bennett, Llinos Devonald, Terwyn Tomos, Dafydd Davies, a Rhidian Evans.

Bu'n eisteddfod fywiog a llwyddiannus a bu cystadlu di-dor am 12 awr ar y llwyfan. Roedd cefnogaeth Ysgol Llandudoch i'r cystadlaethau lleol eleni eto yn gadarn a safonol, a chafodd y plant niferus a gymerodd ran gefnogaeth frwd gan eu rhieni. Canmolodd y tri beirniad safon y cystadlu gydol y dydd, gan dynnu sylw yn arbennig at y dalent wych a welwyd gan y cystadleuwyr ifainc.

Enillydd y gadair, a wnaed unwaith eto gan Colin James o Dorchester (yn wreiddiol o Landudoch ac yn eisteddfodwr brwd yn ifanc), oedd Jo Heyde o Lundain, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Er nad oes ganddi gysylltiad â Chymru o gwbl, yn 2018 penderfynodd Jo ddysgu Cymraeg ar ôl clywed yr iaith yn cael ei siarad ar y stryd yn Ninbych y Pysgod. Erbyn hyn, nid yn unig mae wedi meistroli'r iaith, ond mae hefyd wedi dod yn fardd llwyddiannus, ac wedi dysgu cynganeddu. Yn Llandudoch y llynedd yr enillodd ei chadair gyntaf, ac mae wedi dod i'r brig yn Llambed a Chrymych ers hynny.
Pwysleisiodd Llŷr Gwyn Lewis bod safon y cerddi i gyd yn y gystadleuaeth yn uchel, gyda'r ddau oedd ar y brig yn cyrraedd lefel uchel iawn – byddai wedi bod yn hapus i roi dwy gadair!

Crwt lleol a gipiodd Tlws Llenyddol yr Ifanc sef Lefi Dafydd o Eglwyswrw. Derbyniodd ganmoliaeth uchel Llŷr Gwyn Lewis am ei waith buddugol. Un o ddiddordebau Lefi yw crwydro ei filltir sgwâr, a dywed bod hynny wedi dylanwadu ar y gwaith a gyflwynodd i'r gystadleuaeth. Mae'n aelod o dîm Talwrn Beca (gyda'i fam a'i famgu). Pan yn yr ysgol gynradd, enillodd Lefi dlws W R Smart yn Eisteddfod Llandudoch fel y 'llenor mwyaf addawol' yng nghystadleuaeth yr ysgolion cynradd ar y pryd. Mae'n amlwg bod y ddawn yn parhau i fod yno, ac y gallwn edrych ymlaen at glywed mwy am y gŵr ifanc hwn.
Nid hon oedd yr unig gystadleuaeth iddo ei hennill yn eisteddfod eleni, gan iddo ddod i'r brig ar yr Unawd piano 16-26 hefyd, gyda pherfformiad 'caboledig', yn ôl y beirniad.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, Jo Bracken o Gasblaidd oedd enillydd Tlws Llenyddol y Dysgwyr. Ar ôl symud i Gymru, dechreuodd Jo ddysgu Cymraeg yn 2015. Gwnaeth hyn i ddechrau er mwyn cefnogi ei phlant oedd yn derbyn addysg Gymraeg, ond erbyn hyn mae'r iaith wedi dod yn rhan bwysig o'i bywyd, ac mae hi'n ei chael hi'n anodd dychmygu bywyd hebddi. Hyd yn oed pan fydd yn mynd allan am dro, mi fydd weithiau yn mynd â geiriadur gyda hi!

Ar gyfer yr eisteddfod eleni, cyflwynwyd Tlws Coffa Mair Garnon James gan Carys, Meinir ac Emyr, ei phlant. Mae'r tlws yn un hynod o hardd, ac wedi ei gynllunio a'i greu gan Emyr ar ôl trafod syniadau gyda'i ddwy chwaer. Eglurodd Emyr o'r llwyfan bod pren y Tlws wedi dod o Bethsaida, un o'r capeli a fynychai'r teulu cyn iddo gael ei werthu a'i droi yn dŷ. Mae delweddau o draeth Popit a Phen Cemaes yn rhan o'r tlws, a hefyd y geiriau 'Chwedleua a Chwerthin', a godwyd o hunangofiant Mair. Bydd y tlws yn cael ei roi am berfformiad digri, a'r enillydd cyntaf oedd Peredur Hedd o Landysul, gyda Gwion Bowen, Boncath yn ail. Bydd y ddau yn awr yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gymdeithas Eisteddfodau Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Boduan.

Canlyniadau Lleol:
Llefaru unigol oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Scarlett Rouet, Ysgol Llandudoch ; 2il: Mai Grota, Ysgol Llandudoch ; 3ydd:Angelica Johnson, Ysgol Llandudoch
Unawd oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Scarlett Rouet, Ysgol Llandudoch; 2il: Angelica Johnson, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Cybi Ladd, Ysgol Llandudoch
Llefaru unigol Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Annie Foulkes-Roberts, Ysgol Llandudoch; 2il: Freya Cobb, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Jac Humphreys, Ysgol Llandudoch
Unawd Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Freya Cobb, Ysgol Llandudoch; 2il: Brooke , Ysgol Llandudoch; 3ydd (cydradd): Rowan ac Annie Foulkes-Roberts, Ysgol Llandudoch

Llefaru unigol Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af:Einir Lewis, Eglwyswrw; 2il: Dominic Rouet, Ysgol Llandudoch ; 3ydd:Efa Kerr, Llandudoch
Unawd Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Lili Roberts, Ysgol Llandudoch ; 2il: Einir Lewis, Eglwyswrw; 3ydd (cydradd): Alys Humphreys a Menna Forster, Ysgol Llandudoch
Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af: Einir Lewis, Ysgol Llandudoch ; 2il:Lili Roberts, Ysgol Llandudoch
Grŵp llefaru hyd at Flwyddyn 6. 1af: Ysgol Llandudoch
Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Einir Lewis, Eglwyswrw; 2il: Alys Humphreys, Ysgol Llandudoch.
Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6. 1af Einir Lewis, Eglwyswrw; 2il :Efa Kerr, Ysgol Llandudoch
Parti/Côr hyd at Flwyddyn 6. 1af: Côr Ysgol Llandudoch; 2il: Parti Ysgol Llandudoch
Gwobr Her Nantypele i'r perfformiad gorau gan unigolyn yn y cystadlaethau lleol: Scarlett Rouet, Ysgol Llandudoch.

***Cystadlaethau Llenyddol y plant** :*
Plant oed Cyfnod Sylfaen: 1af ac 2il :Annes Euros, Llangybi, Pwllheli; 3ydd: Alys Jones, Eglwyswrw
Blynyddoedd 3 a 4 : 1af: Elliw Davies, Drefach, Llanybydder; 2il: Beca Roberts, Bow Street; 3ydd (cydradd) : Saran Davies a Ella Sable, Eglwyswrw
Blynyddoedd 5 a 6: 1af: Lili Williams, Llangolman; 2il: a 3ydd: Hywyn Euros, Llangybi.
Barddoniaeth oed Cyfnod Sylfaen. 1af: Annes Euros, Llangybi, Pwllheli; 2il: Tomos Roberts, Eglwyswrw; 3ydd: Osian Thomas, Eglwyswrw
Barddoniaeth Blynyddoedd 3 a 4. 1af: Mared Rogers, Eglwyswrw; 2il: Freya Cobb, Ysgol Llandudoch; 3ydd: Ayla Durdu, Ysgol Llandudoch
Barddoniaeth Blynyddoedd 5 a 6. 1af: Glain Phillips, Eglwyswrw; 2il : Lili Williams, Llangolman; 3ydd: Alaw Williams, Aberteifi
Gwobr Her W.R.Smart i'r llenor ifanc mwyaf addawol: Glain Phillips, Eglwyswrw.

***Cystadlaethau Celf y plant** :*
Oed meithrin neu dderbyn. 1af: Theo Heneker, Aberteifi; 2il: Kushla Waygood de Chroustchoff, Ysgol Llandudoch ; 3ydd: Cadel Snow, Ysgol Llandudoch; Cymeradwyaeth: Isabelle Thomas, Aberteifi
Blwyddyn 1 a 2. 1af: Eddie Snow, Ysgol Llandudoch; 2il: Albert Sulter, Eglwyswrw; 3ydd: Jessica Harrison, Aberteifi; Cymeradwyaeth: Tomos Roberts, Eglwyswrw a Hazel Wakely, Cilgerran
Blwyddyn 3 a 4. 1af: Carina Read, Eglwyswrw; 2il: Oliver Thomas, Aberteifi ; 3ydd: Manon Davies, Eglwyswrw
Blwyddyn 5 a 6. 1af: Lacey Grover, Aberteifi; 2il: Aneira Read, Eglwyswrw ; 3ydd: Efa Kerr, Ysgol Llandudoch. Cymeradwyaeth: Aneira Read, Eglwyswrw.
Ffotograffiaeth : Blwyddyn 6 ac iau. 1af: Henry Woods, Llandudoch; 2il: Harri Moore, Eglwyswrw; 3ydd: Tomos Roberts, Eglwyswrw; Cymeradwyaeth: Carina Read, Eglwyswrw/
Tlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol: Lacey Grover, Aberteifi

Cystadlaethau Llwyfan
Llefaru unigol dosbarth derbyn neu iau. 1af: Gwern Dafydd Bowen, Boncath
Unawd oed dosbarth derbyn neu iau. 1af: Gwern Dafydd Bowen, Boncath; 2il: Elin Dalton, Pont Creuddyn
Llefaru unigol Blwyddyn 1 a 2. 1af: Mari Elen Dalton, Pont Creuddyn; 2il: Annest Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd Blwyddyn 1 a 2. 1af: Annest Euros, Llangybi, Pwllheli; 2il: Mari Elen Dalton, Pont Creuddyn.

Gwobr Her Calon Ifanc Llandudoch i'r perfformiad llwyfan unigol hyd at Flwyddyn 2: Gwern Dafydd Bowen, Boncath
Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Greta Ann Jones, Caerfyrddin
Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Greta Ann Jones, Caerfyrddin
Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6. 1af: Iwan M Tomos, Pontarddulais; 2il: Celyn Fflur Davies, Llandyfrïog; 3ydd: Hywyn Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1af: Ella Gwenno, Blaenpennal; 2il: Iwan M Tomos, Pontarddulais; 3ydd: Celyn Fflur Davies, Llandyfrïog
Unawd Alaw Werin hyd at Flwyddyn 6. 1af: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 2il: Iwan M Tomos, Pontarddulais; 3ydd(cydradd): Annest Euros, Llangybi, Pwllheli ac Ella Gwenno, Blaenpennal
Canu emyn hyd at Flwyddyn 6. 1af Iwan M Tomos, Pontarddulais; 2il: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 3ydd(cydradd): Ella Gwenno, Blaenpennal ac Annest Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd Cerdd Dant hyd at Flwyddyn 6. 1af:Ella Gwenno, Blaenpennal; 2il (cydradd): Iwan M Tomos, Pontarddulais a Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 3ydd: Annest Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd piano hyd at Flwyddyn 6. 1af: Hywyn Euros, Llangybi, Pwllheli; 2il:Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog; 3ydd: Annest Euros, Llangybi, Pwllheli
Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at Flwyddyn 6. 1af: Celyn Fflur Davies, Llandyfrïog
Gwobr Her Iwan a Sian Davies, Isfryn, i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn y cystadlaethau hyd at Flwyddyn 6: Gruffydd Rhys Davies, Llandyfrïog
Llefaru unigol dan 16 oed. 1af: Ianto Evans, Casblaidd; 2il: Fflur McConnell, Aberaeron; 3ydd: Elen Fflur, Casnewydd Bach
Unawd dan 16 oed. 1af: Fflur McConnell, Aberaeron; 2il: Ifan Evans, Casblaidd; 3ydd: Ianto Evans, Casblaidd
Unawd Alaw Werin dan 16 oed. 1af: Fflur McConnell; 2il(cydradd) Ifan a Ianto Evans; 3ydd: Elen Fflur, Casnewydd Bach
Canu Emyn dan 16 oed. 1af: Ianto Evans, Casblaidd; 2il: Fflur McConnell, Aberaeron; 3ydd: Ifan Evans, Casblaidd
Unawd piano dan 16 oed. 1af:Lleucu Haf Thomas, Penparc; 2il: Ianto Evans, Casblaidd; 3ydd: Ifan Evans, Casblaidd
Unawd unrhyw offeryn cerdd ac eithrio'r piano dan 16. 1af: Lleucu Haf Thomas; 2il: Ianto Evans, Casblaidd; 3ydd: Ifan Evans, Casblaidd
Gwobr Merched y Wawr Llandudoch i'r perfformiad unigol gorau oed Uwchradd dan 16 oed : Ianto Evans, Casblaidd
Llefaru unigol 19 a than 26 oed. 1af: Sioned Howells, New Inn
Unawd 19 a than 26 oed. 1af: Ffion Thomas, Crymych; 2il: Sioned Howells, New Inn
Unawd Alaw Werin 16 a than 26 oed 1af:Sioned Howells, New Inn; 2il: Ffion Thomas, Crymych
Ymgom, deialog neu gyflwyniad llafar dan 26. (Tlws Cwmni Drama Llandudoch) 1af: Adran Penparc

Cân o unrhyw sioe gerdd i unawd, deuawd neu grŵp (Cwpan Her Parhaol Sheila Penrallt-y-Dre) 1af: Fflur McConnell, Aberaeron; 2il: Ffion Thomas, Crymych; 3ydd: Sioned Howells, New Inn
Canu emyn 12 a than 60 oed. 1af: Ffion Thomas, Crymych; 2il: Sioned Howells, New Inn.
Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd. 1af; Sioned Howells, New Inn; 2il: Jane Altham-Watkins, Glais, Abertawe; 3ydd: Maria Evans, Rhydargaeau; 4. Gwion Bowen, Boncath.

Prif gystadleuaeth lefaru. 1af: Sioned Howells, New Inn 2il: Jane Altham-Watkins, Abertawe; 3ydd: Gwion Bowen, Boncath

Ensemble lleisiol agored 1af: Y Parch a'r Bri, Crymych

Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru a Thlws Coffa Mair Garnon James : Llefaru neu gyflwyno darn digri. 1af: Peredur Hedd, Llandysul 2il: Gwion Bowen, Boncath

Cystadleuaeth Côr Llandudoch (Cwpan Coffa Nellie James) 1af: Côr Meibion Taf, Caerdydd; 2il: Côr Crymych a'r Cylch:

Yr Hen Ganiadau 1af:Ffion Thomas, Crymych; 2il: Efan Williams, Lledrod; Andy Evans, Dolgellau.

Her Unawd 1af: Efan Williams, Lledrod; 2il: Andy Evans, Dolgellau; 3ydd: Ffion Thomas, Crymych; 4ydd: Sioned Howells, New Inn.

Cystadlaethau Llenyddol

Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc i gystadleuwyr hyd at 21 oed : Lefi Dafydd, Eglwyswrw

Darn o ryddiaith 11 – 16 oed. 1af: Lleucu Angharad Huws, Llanuwchllyn

Darn o farddoniaeth 16 – 26 oed: 1af: Tesni Peers, Rhosllannerchrugog

Cystadleuaeth y Gadair: Jo Heyde, Llundain

Telyneg: John Meurig Edwards, Aberhonddu

Soned: Hannah Roberts, Llandaf, Caerdydd

Cyfres o benillion telyn neu dribannau yn ymwneud â Byd Natur: Rachel James, Boncath

Englyn: Rachel James, Boncath

Cerdd gynganeddol ar unrhyw fesur: Siw Hanson, Staines, Middlesex

Limrig: Roy Evans, Trewyddel

Cân ddigri hyd at 30 llinell: Roy Evans, Trewyddel

Stori fer: Hefin Wyn, Maenclochog

Cystadleuaeth CLEBRAN (Papur Bro'r Preseli): Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys, Caerdydd

Cyfansoddi tôn ar gyfer geiriau emyn Buddugol Eisteddfod Llandudoch 2022: Godfrey Williams, Pontcysyllte, Llangollen

Cystadlaethau Llenyddol i Ddysgwyr

Lefel Mynediad 1af: Yvonne Reid, Swydd Lincoln 2il: Eleanor Reid, Swydd Lincoln

Lefel Sylfaen 1af: Helen Elias, Coventry 2il: Mel Hopkins; 3ydd: Lindsay Fitzgerald, Caerffili

Lefel Canolradd 1af: Keith Thomas, Llanglydwen 2il: Jane Madely, Trefdraeth Lefel Uwch/ Profiadol 1af: Annie May, Llanbedr Felffre; 2il: Peter Marshall, Caerdydd

Cerdd Acrostig 1af Keith Thomas, Llanglydwen; 2il: Yvonne Reid, Swydd Lincoln

Tlws Llenyddol y Dysgwyr (Tlws Coffa Rhin Palmer): Liz Bracken, Casblaidd.